

Maer, Y Cynghorydd Glenn Price – Blwyddyn Ddinesig 2009/10

Mae'r Cynghorydd Glenn Price yn cynrychioli Ward Treharris. Cafodd ei ethol fel Aelod Annibynnol yn 2004 am y tro cyntaf ac yna eto yn 2008. Mae wedi gweithio ar nifer o bwyllgorau yn ystod y cyfnodau hyn gan gynnwys Gwasanaethau Plant Integredig, Cynllunio, Trwyddedu, Apeliadau, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a nifer o gyrff allanol.

Cafodd y Cynghorydd Glenn Price ei eni ym Mynwent y Crynwyr, mae'n briod â Marion ac mae ganddynt dau o blant. Mae Sheridan yn Beiriannydd yn Panasonic ac mae Julian yn gweithio i British Airways. Mae gan Glenn un wyres, sef Emily.

Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Woodlands, Mynwent y Crynwyr, Ysgol Uwchradd Treharris ac yng Ngholeg Saint Loyes yng Ngaerwysg.

Dechreuodd waith fel prentis Saer Maen ond wedi afiechyd hir, aeth yn ei ôl i addysg lawn amser ym 1985 gan ennill gradd mewn Electroneg Ddiwydiannol. Gweithiodd ag Osiris Controls lle y bu'n cynllunio systemau Galw Nyrs di-wifr ac unedau gwyliadwriaeth. Symudodd yn ei flaen i Surface Technology Systems lle enillodd gymwysterau D32 - D33 a ganiataodd iddo hyfforddi prentisiaid a staff eraill i Lefel 3, NVQ.

Elusen y Maer eleni yw Cymorth Canser Macmillan. Wedi llawer o waith codi arian, bydd Ysbyty Tywysog Cymru yn derbyn ward Canser Macmillan newydd lle y gall bobl leol derbyn triniaeth heb deithio milltiroedd, fel y maent yn gwneud ar hyn o bryd. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned leol.